

# Crynodeb Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg

## Adolygiad Ysgol Ardal: Brynffordd, Licswm a Rhosesmor



### Cefndir

Ym mis Mehefin 2015 penderfynodd y Cabinet ein bod yn cychwyn ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer adolygiad ardal ar gyfer yr ysgolion canlynol:-

- Ysgol Gynradd Brynffordd
- Ysgol Gynradd Licswm
- Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor

Bydd yr adolygiad ysgol ardal yn asesu'r ddarpariaeth addysgol yn ardal Brynffordd, Licswm a Rhosesmor.

Dyma'r opsiynau ar gyfer yr ardal:-

- Opsiwn 1: Y Sefyllfa Bresennol
- Opsiwn 2: Ysgol Ardal ar Un Safle
- Opsiwn 3: Cadw Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor ac un Ysgol Ardal ar un safle (naill ai Ysgol Gynradd Brynffordd neu Ysgol Gynradd Licswm).

Byddai hyn yn golygu:-

- **Opsiwn 1: Y sefyllfa bresennol** - Pob ysgol yn aros fel y mae ac yn cadw ei henw, ei chategori, ei chyllideb, ei llywodraethwyr a'i staff ac yn aros yn ei chymuned.
- **Opsiwn 2: Ysgol Ardal ar un safle** – Ysgol Ardal – un safle, byddai'r ysgol yn cadw ei chategori ond yn cael enw, corff llywodraethu, pennaeth a chyllideb newydd ac yn aros yn un o'r cymunedau, naill ai Brynffordd, Licswm neu Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor.
- **Opsiwn 3: Ysgolion Ardal ar ddau safle** - byddai Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor yn aros fel y mae ac yn cadw ei henw, ei chategori, ei chyllideb, ei llywodraethwyr a'i staff ac yn aros yn ei chymuned. Byddai Ysgol Gynradd Brynffordd ac Ysgol Gynradd Licswm yn uno ar un safle. Byddai'r ysgol unedig yn aros yn un o'r cymunedau, naill ai Brynffordd neu Licswm.

Mae Gwybodaeth Allweddol, gan gynnwys Gwerthusiad Opsiynau, Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg, Asesiadau Effaith Cymunedol, Asesiad o Effaith ar Gludiant a Gwerthusiadau Adeiladau, wedi'u casglu ynghyd er mwyn llywio'r adroddiad hwn, ac mae ar gael i'w gweld drwy'r ddolen gyswllt ganlynol: [www.siryfflint.gov.uk/moderneiddioysgolion](http://www.siryfflint.gov.uk/moderneiddioysgolion).

## Diben


Diben yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg yw nodi sut y byddai'r opsiynau posibl ar gyfer yr adolygiad ysgol ardal yn effeithio ar y rhai sydd â nodweddion a ddiogelir, yn gadarnhaol ac yn negyddol.

Mae'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg yn cynnwys:


- Adolygiad o'r data sydd ar gael ar gyfer yr ysgolion ar gyfer disgyblion, athrawon a staff cefnogi a Llywodraethwyr gan gynnwys data ynglŷn ag oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, tueddfryd rhywiol, y Gymraeg a ffactorau perthnasol eraill;
- Ymgynghoriad anffurfiol gyda phlant a phobl ifanc a leolir yn yr ysgol;
- Adborth ar y rhwydweithiau cefnogaeth amrywiol sydd ar gael.
- Effaith ar y Gymuned.



# YSGOL GYNRADD BRYNFFORDD




Disgyblion




■ Gwryw ■ Benyw

Staff



■ Gwryw ■ Benyw

Cyflogaeth




■ Llawn amser ■ Rhan amser

Nodwedd a ddiogelir	Disgyblion	Staff	Llywodraethwyr	Rhieni/Gofalwyr
<b>Oedran</b>	68 disgybl llawn amser (ystod oedran 3-11)	13 aelod o staff (ystod oedran 25-59)	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Anabledd</b>	Llai na 10 disgybl gyda datganiad o Anghenion Arbennig neu gefnogaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol Llai na 10 disgybl ag anabledd corfforol wedi'i nodi	53.85% Heb ddatgan anabledd 46.15% heb nodi anabledd	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Ailbennu rhywedd</b>	Dim data ar gael	Dim data ar gael	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Priodas a Phartneriaeth Sifil</b>	Dim data ar gael	53.85% Yn briod neu mewn partneriaeth sifil 7.69% ddim yn briod neu mewn partneriaeth sifil 38.46% Heb ddatgan	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Beichiogrwydd a Mamolaeth</b>	Dim data ar gael	0% ar gyfnod mamolaeth	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Hil</b>	95.59% o ddisgyblion Gwyn-Prydeinig Dim disgyblion sy'n derbyn cymorth gyda Saesneg fel iaith ychwanegol.	53.85% o staff wedi datgan Gwyn 46.15% o staff heb ddatgan	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Crefydd / Cred</b>	Dim data ar gael Mae hon yn ysgol anenwadol	23.08% o staff wedi datgan eu bod yn Gristion 61.54% o staff heb ddatgan 7.69% o staff wedi datgan Dim crefydd 7.69% o staff wedi datgan Crefydd Arall	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Rhyw</b>	32 o'r disgyblion yn fechgyn 36 o'r disgyblion yn ferched	100% benywod	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Tueddfryd Rhywiol</b>	Dim data ar gael	38.46% o staff wedi datgan Heterorywiol 61.54% o staff heb ddatgan	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Iaith Gymraeg</b>	Wedi'i diffinio fel Ysgol Cyfrwng Saesneg – dim effaith			




# YSGOL GYNRADD LICSWM

Nifer y disgyblion




Disgyblion




■ Gwryw ■ Benyw

Staff



■ Gwryw ■ Benyw

Cyflogaeth




■ Llawm amser  
■ Rhan amser

Nodwedd a ddiogelir	Disgyblion	Staff	Llywodraethwyr	Rhieni/Gofalwyr
<b>Oedran</b>	49 disgybl llawn amser (ystod oedran 3-11)	15 aelod o staff (ystod oedran 25-59)	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Anabledd</b>	Llai na 10 disgybl gyda datganiad o Anghenion Arbennig neu gefnogaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol Llai na 10 disgybl ag anabledd corfforol wedi'i nodi	60% wedi datgan dim anabledd 40% heb ddatgan unrhyw anabledd	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Ailbennu rhywedd</b>	Dim data ar gael	Dim data ar gael	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Priodas a Phartneriaeth Sifil</b>	Dim data ar gael	53.33% Yn briod neu mewn partneriaeth sifil 46.67% Heb ddatgan	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Beichiogrwydd a Mamolaeth</b>	Dim data ar gael	6.6% o staff ar gyfnod mamolaeth	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Hil</b>	97.96% o ddisgyblion Gwyn-Prydeinig Dim disgyblion sy'n derbyn cymorth gyda Saesneg fel iaith ychwanegol.	80% o staff wedi datgan Gwyn 20% o staff heb ddatgan	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Crefydd / Cred</b>	Dim data ar gael Mae hon yn ysgol anenwadol	20% o staff wedi datgan eu bod yn Gristion 60% o staff heb ddatgan 20% o staff wedi datgan Dim Crefydd	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Rhyw</b>	33 o'r disgyblion yn fechgyn 16 o'r disgyblion yn ferched	93.33% o staff yn fenywod 6.67% o staff yn wrywod	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Tueddfryd Rhywiol</b>	Dim data ar gael	26.67% o staff wedi datgan Heterorywiol 73.33% o staff heb ddatgan	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Iaith Gymraeg</b>	Wedi'i diffinio fel Ysgol Cyfrwng Saesneg – dim effaith			




# YSGOL RHOS HELYG


Nifer y disgyblion




Disgyblion



Staff



Cyflogaeth



Nodwedd a ddiogelir	Disgyblion	Staff	Llywodraethwyr	Rhieni/Gofalwyr
<b>Oedran</b>	130 disgybl llawn amser (ystod oedran 3-11)	27 aelod o staff (ystod oedran 16-64)	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Anabledd</b>	Llai na 10 disgybl gyda datganiad o Anghenion Arbennig. Mae 35 disgybl yn derbyn cefnogaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol Llai na 10 disgybl ag anabledd corfforol wedi'i nodi	37.04% Heb ddatgan anabledd 59.26% heb ddatgan os oes ganddynt anabledd	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Ailbennu rhywedd</b>	Dim data ar gael	Dim data ar gael	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Priodas a Phartneriaeth Sifil</b>	Dim data ar gael	33.33% Yn briod neu mewn partneriaeth sifil 18.52% ddim yn briod neu mewn partneriaeth sifil 48.15% Heb ddatgan	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Beichiogrwydd a Mamolaeth</b>	Dim data ar gael	5.7% ar gyfnod mamolaeth	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Hil</b>	76.92% o ddisgyblion Gwyn-Prydeinig Dim disgyblion sy'n derbyn cymorth gyda Saesneg fel iaith ychwanegol.	48.15% o staff wedi datgan Gwyn 51.85% o staff heb ddatgan	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Crefydd / Cred</b>	Dim data ar gael Mae hon yn ysgol anenwadol	18.52% o staff wedi datgan eu bod yn Gristion 74.07% o staff heb ddatgan 7.41% o staff wedi datgan Dim Crefydd	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Rhyw</b>	71 o'r disgyblion yn fechgyn 59 o'r disgyblion yn ferched	96.30% o staff yn fenywod 3.70% o staff yn wrywod	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Tueddfryd Rhywiol</b>	Dim data ar gael	11.11% o staff wedi datgan Heterorywiol 85.19% o staff heb ddatgan 3.7% o staff wedi datgan arall	Dim data ar gael	Dim data ar gael
<b>Iaith Gymraeg</b>	Wedi'i diffinio fel Ysgol Cyfrwng Saesneg – dim effaith			

## **Tudalen Effeithiau**

Os dewisir Opsiwn 1 ni fydd unrhyw effaith gan y bydd yr ysgol yn parhau fel y mae ar hyn o bryd;

Os dewisir Opsiwn 2 neu 3, mae'r effeithiau posibl ar gyfer yr ysgolion nad ydynt yn cael eu dewis i fod yn ysgol ardal yn cynnwys:

- Gostyngiad posibl mewn presenoldeb mewn digwyddiadau oherwydd mynediad i gludiant
- Mwy o bellter teithio a llai o bellter teithio i'r ysgol ar gyfer budd-ddeiliaid;
- Colli cyflogaeth;
- Gwisg ysgol newydd;
- Athrawon newydd a staff cymorth newydd ar gyfer disgyblion;
- Amgylchedd dysgu newydd ac anghyfarwydd;
- Newidiadau i grwpiau cyfeillgarwch
- Aflonyddwch ar gyfer pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY);
- Dyblygu cymorth ar gyfer disgyblion ADY yn eu hamgylchedd dysgu newydd.
- Cost gweithredu unrhyw addasiadau newydd sy'n ofynnol.
- Diswyddiadau yn effeithio ar ddynion a merched;
- Mwy o amser teithio ar gyfer staff sy'n cael eu hadleoli'n llwyddiannus;
- Gall unigolion fod mewn perthynas lesbiaid, hoyw neu ddeurywiol, neu wedi ailbennu rhywedd a gall newid fod yn heriol i amgylchedd ysgol newydd.
- Cau'r adeiladau gan atal defnydd cymunedol;
- Costau cynyddol gwisg ysgol newydd ar gyfer disgyblion sy'n newid ysgol.

## Camau posibl i liniaru'r effeithiau

- Darparu cymorth pontio i ddisgyblion
- Darparu gwybodaeth a chefnogaeth reolaidd i'r holl ddisgyblion, eu teuluoedd, staff, a'r llywodraethwyr, yn enwedig y rhai gyda nodweddion a ddiogelir
- Darparu mynediad i raglen gyfnewid gwisg ysgol
- Darparu cymorth Gwasanaethau Cynhwysiant ar gyfer disgyblion yn enwedig rhai ag anghenion dysgu ychwanegol
- Darparu mynediad i ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg ynghyd ag addysg ffydd os dymunir
- Darparu gwasanaethau cydberthynol arbenigol
- Darparu Gwasanaeth Cynghori, Gwasanaethau Synhwyrdd, Gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol / Sipsiwn-Teithwyr, Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, Gwasanaeth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, Gwasanaeth Lles Addysg, Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad, Addysg Heblaw Yn Yr Ysgol a Gwasanaeth Cyflwr y Sbectrwm Awtistiaeth.
- Cymorth adleoli a diswyddo os bydd angen
- Ymgynghori â staff drwy gyfarfodydd 1:1
- Lliniaru effeithiau cymunedol drwy feithrin cysylltiadau cymunedol ehangach yn dibynnu ar yr opsiynau a ddewisir
- Ystyried trosglwyddo asedau i grŵp cymunedol cyfansoddiadol lle gallant ddangos bod yr angen a'r gallu i gymryd drosodd y gwaith o redeg y safle.
- Datblygu Polisi Ailbennu Rhywedd newydd a hyfforddiant dilynol.
- Darparu hyfforddiant drwy Raglen Cefnogwyr Addysg Stonewall;
- Cymryd pob cam ymarferol i leihau aflonyddwch

## Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

Byddwn yn ymgynghori'n anffurfiol ar yr adolygiad ysgol ardal gyda chymunedau yr ysgolion yr effeithir anrynt gan gynnwys derbyn safbwyntiau plant a phobl ifanc.

Bydd gwybodaeth sy'n deillio o'r ymgynghoriad anffurfiol yn cael ei darparu i'r Cabinet yn yr Hydref 2016 gyda'r Aseidiadau o Effaith. Bydd y Cabinet yn ystyried yr holl wybodaeth yn ofalus, cyn penderfynu ar yr opsiwn ar gyfer yr ardal..

Ar ôl penderfyniad y Cabinet, bydd rhagor o wybodaeth ar gael i'r budd-ddeiliaid.

## Manylion lle y gellir gweld adroddiad llawn yr Aseiad o Effaith

Mae'r Aseiad llawn o Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg ar gael drwy'r ddolen gyswllt ganlynol, [www.siryfflint.gov.uk/moderneiddioysgolion](http://www.siryfflint.gov.uk/moderneiddioysgolion). Mae copïau caled ar gael trwy gyflwyno cais ysgrifenedig neu drwy anfon e-bost i'r Tîm Moderneiddio Ysgolion yn y cyfeiriad isod:

Tîm Moderneiddio Ysgolion  
Cyngor Sir y Fflint  
Neuadd y Sir  
Yr Wyddgrug  
Sir y Fflint CH7 6NG  
Rhif Ffôn: 01352 704134 neu 01352 704014  
[21stcenturyschools@flintshire.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@flintshire.gov.uk)